

Cofnodion cyfarfod

4/7/2019

Preseanol: Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer O Rhys Evans, Sue Davies, Dilys Evans, Sharon Evans, Eluned Jones, Ivora Jones, Tony Parry, Alun Price, Carol Rowlands, John Caradog Williams, Lis Puw (Clerc).

1. **Croesawyd** pawb gan y Maer i'r cyfarfod ffurfiol ar ôl i'r aelodau ymweld â'r ardd gymunedol i weld y gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud yno. Diolchwyd yn gynnes i Dr Graham am ei groeso i'r ardd gymunedol. Dywedodd Y Maer y byddai'n gwneud cyfraniad ariannol i'r Grŵp Ieuenctid a fydd yn cyfarfod yno yn ystod yr haf o dan ofal y Swyddog Ieuenctid, Alaw Paul. Gwnaethpwyd cais am wirfoddolwyr i'w chynorthwyo. Dywedodd y Maer iddo gael ei gyfweld gan Radio Cymru am y trefniadau cyn Bash Fawr Y Bala.
2. **Ymddiheuriadau a Buddiant:** Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Dilwyn Morgan. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 6/6/2019.
4. **Materion y Clerc:**
 - i. Heddlu Gogledd Cymru - gan mai dim ond cydnabyddiaeth a dderbyniwyd i gŵyn y Cyngor am ymddygiad afreolus ar y Stryd Fawr yn ystod nosweithiau Sul gwyliau banc, cytunwyd i anfon y gŵyn ymlaen at sylw'r Uwch Arolygydd Richie Green yng Nghaernarfon.
 - ii. Baneri – derbyniwyd 2 faner gref ar gyfer y Domen a chytunodd J C Williams i'w codi yn ystod yr haf a'u tynnu yn ystod tymor y gwyntoedd cryfaf.
 - iii. Rhoddodd y Clerc adroddiad ar hyfforddiant Cynllunio Cymunedol a mynychodd ar 11/6/19 yn Llanrwst. Y prif negeseuon oedd yr angen am fewnbwn gan y Cynghorau Lleol ar gychwyn y broses cynllunio, yn hytrach nag ymateb i gais Parc Cenedlaethol Eryri i gynllun drafft. Roedd sawl mater o ddiddordeb i Bartneriaeth Penllyn, megis ymgysylltu gyda'r cyhoedd, a chael grant am gar trydan cymunedol a phwynt gwefru.
 - iv. Cytunwyd i wahodd person i gymryd y sedd wag ar y Cyngor. Cytunwyd i gydnabod cyfraniad Mrs Edith Roberts am ei gwasanaeth fel Cynghorydd a Maer Y Bala.
5. **Cyngor Gwynedd:** Nid oedd adroddiad.
6. **Materion Cynllunio:** Dim cais.

7. Materion Cyllid:

- i. Derbyniwyd adroddiad ar y sefyllfa ariannol a chytunwyd i ail-ysgrifennu siec i Gyngor Gwynedd a oedd wedi ei gwrthod gan beiriant sganio'r Banc.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am gynnal y toiledau'n ariannol a chyfarwyddwyd y Clerc i wneud cais am 10% o'r derbyniadau o'r meysydd parcio. Cytunodd Y Maer a'r Clerc i geisio mynychu cyfarfod gyda Swyddogion ar 15/7/19 am 1.00pm yn yr Henblas, a chytunwyd ymhellach i roi gwybod am y cyfarfod hwn i swyddogion Partneriaeth Penllyn.
- iii. Cytunwyd i dalu anfonebau
 - a. Torri gwair Y Domen
 - b. Easy Flags
 - c. Martin Jones am ddiogelu'r lloches bws
 - d. Cyngor Cymuned Llanuwchllyn am bapur ac amlenni a brynwyd ar y cyd
 - e. TWE
 - f. Cyflog
 - g. Costau teithio i Lanrwst
- iv. Cytunwyd i dynnu'r hen feinciau o lwybr Y Domen ac i beidio a'u hadnewyddu ar hyn o bryd.

8. Is-bwyllgor y Nadolig: Derbyniwyd adroddiad. Cytunwyd i beidio bwrw ymlaen gyda chwmni masnachol sy'n darparu goleuadau Nadolig oherwydd anawsterau trwyddedu a chostau anferthol. Mae'r Cytundeb presennol i ddarparu coed Nadolig bychain ar fusnesau yn y Stryd Fawr wedi dod i ben ei dymor. Os bydd cytundeb i ddod a'r ddapiaeth arferol i ben, bydd y Cyngor yn cysylltu gyda'r busnesau cyn y Gaeaf ac yn eu hannog i drefnu rhoi coeden eu hunain. Bydd trafodaeth gyda'r Grŵp Busnesau a grwpiau eraill ar y ffordd ymlaen i oleuo'r Stryd.

9. Gohebiaeth: Cyngor Gwynedd:

- i. Cytunwyd fod y trefniadau presennol yn yr orsaf bleidleisio yn dderbyniol.
- ii. Derbyniwyd rhestr o ddyddiadau Cyfarfodydd i Gynghorwyr gan y Parc Cenedlaethol Eryri.
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am ddiddymu treth ar doiledau.
- iv. Cytunwyd i ysgrifennu at Gartrefi Cymunedol Gwynedd i gydnabod yr angen am dai cymdeithasol i bobl Y Bala ond hefyd i fynegi anfodlonrwydd am golli lle chwarae plant wrth Cysgod y Coleg.
- v. Gohiriwyd trafodaeth ar neges oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru tan fis Medi.
- vi. Rhannwyd gwybodaeth am gyfarfod ffarwelio Adrian a Hilary Murray.
- vii. Rhannwyd gwybodaeth am sefydlu Banc Bwyd.
- viii. Rhannwyd gwybodaeth am ymchwil i dai haf er mwyn i Gynghorwyr allu ateb yn unigol.

10. Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a ddywedodd y bydd gwaith adnewyddu sylfaenol o'r llawr uchaf yn mynd ymlaen. Trafodwyd y posibilrwydd o ymuno mewn cynllun i osod pwyntiau wifi ar hyd y Stryd Fawr y byddai busnesau a thwristiaid yn

gallu plygio mewn iddo. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt am rôl Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf yn y Ganolfan Deuluol a obeithir ei sefydlu yn adeilad ysgol Beuno Sant.

Cytunwyd i'r Bartneriaeth wneud cais i Gyngor Gwynedd i ddal lês Canolfan Bro Tegid; ar hyn o bryd Cyngor Tref Y Bala sy'n dal y lês.

11. Cytunwyd i ohirio trafod datgan cefnogaeth i annibyniaeth i Gymru tan y cyfarfod nesaf.
12. **Neuadd Buddug:** Cytunwyd i ddatgan cefnogaeth i lunio Cynllun Busnes ar gyfer trosglwyddo Neuadd Buddug i grŵp cymunedol, gan awgrymu fod y Cynllun yn cynnwys cydweithredu gyda Theatr Derek Williams, Stiwdio Ddawns Buddug James, Canolfan y Plase a'r clybiau chwaraeon.
13. **Asedau'r Cyngor:** derbyniwyd adroddiad Carol Rowlands fod eu cyflwr yn dderbyniol a diolchwyd iddi am ei gwaith o'u harchwilio.
Cytunwyd i drefnu gyda Dilwyn Morgan i symud mainc o'r storfa i ardal Cysgod y Coleg / Blaenddol mor fuan â phosib.
14. **Materion lleol y Cyngorwyr Tref**
 - i. Darllenwyd neges Dilwyn Morgan y bydd asesiad llawn o ddiogelwch plant yn cerdded at Ysgol Godre'r Berwyn; awgrymwyd yr angen am railings wrth yr Eglwys.
 - ii. Yn dilyn niwed corfforol i rai pobl, cytunwyd i anfon at Adran yr Amgylchedd yng Nghyngor Gwynedd i ofyn iddynt gymryd mesurau i leihau'r nifer o jac-y-dos yn y Stryd Fawr.
 - iii. Yn dilyn achos arall o berson yn disgyn oherwydd pafin anwastad - yn arbennig wrth y Co-op a'r Swyddfa Bost - cytunwyd i ofyn eto i Gyngor Gwynedd ymdrin â'r mater ar frys ac i wneud arolwg llawn o'r palmentydd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 5.9.19

Amser gorffen: 9.25pm